14–16 oed

# Geirfa hygyrch ar gyfer termau allweddol: adeiledd a bondio

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

Wedi'i lawrlwytho o rsc.li/496HPSP, nodiadau i athrawon ar gael

# Cynnwys

**I gael gwybod sut i ddefnyddio'r adnodd hwn, ac i gael awgrymiadau metawybyddol, syniadau ar gyfer cefnogi a herio, ac adnoddau cysylltiedig, ewch i: rsc.li/444TbFh**

## Cyffredinol


Atom……………………………………………4

Bond cemegol…………………………………5

Cyfansoddyn…………………………………6

Dargludydd trydan…………………………7

Diagram dot a chroes………………………8

Electron………………………………………9

Plisg/lefelau egni electronau……………10

Elfen…………………………………………11

Dellten enfawr………………………………12

Anelastig……………………………………13

Dellten reolaidd ……………………………14

Gronyn is-atomig……………………………15


## Adeiledd a bondiau cofalent


Bond cofalent…………………………………16

Deuatomig……………………………………17

Grymoedd rhyngfoleciwlaidd………………18

Grymoedd mewnfoleciwlaidd………………19

Macrofoleciwl…………………………………20

Moleciwl………………………………………21

# Cynnwys – parhad

## Adeiledd a bondiau ïonig

Anion....................................................................22
Brau.......................................................................23
Ïon.........................................................................24
Bond ïonig..............................................................25
Ïon polyatomig.......................................................26

## Adeiledd a bondiau metelig


Aloi.......................................................................27
Catïon....................................................................28
Electron dadleoledig.............................................29
Hydwyth.................................................................30
Grym atyniad electrostatig...................................31
Hydrin.....................................................................32
Metel......................................................................33
Bond metelig..........................................................34
Dargludedd thermol...............................................35

## Adeiledd a bondiau carbon

Alotropau..............................................................36
Tetrahedrol............................................................37

# Atom

y gronyn lleiaf posibl o elfen; mae atomau wedi'u gwneud o brotonau, niwtronau ac electronau



**Enghraifft**
Un atom unigol nitrogen yw'r math lleiaf o nitrogen sy'n gallu bodoli

**Peidio â drysu â…**
ïonau. Mae gan atomau nifer hafal o brotonau ac electronau. Mae atomau'n gallu ffurfio ïonau pan fyddant yn colli neu'n ennill electronau

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/3G7XpSi




**Dweud**
A-tom


**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn astudio pynciau tebyg am adeiledd atomig a gronynnau

# Bond cemegol

grym atyniad electrostatig cryf sy'n dal atomau at ei gilydd

**Mewn geiriau eraill…**
grym sy'n dal atomau at ei gilydd




**Enghraifft**
Mae'r bondiau cemegol mewn methan yn cysylltu pob atom carbon â phedwar atom hydrogen

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: [bit.ly/4lydvVG](bit.ly/4lydvVG)

**Peidio â drysu â…**
newidiadau cyflwr. Nid yw toddi a berwi sylwedd yn golygu torri unrhyw fondiau cemegol


**Dweud**
Bond cem-eg-ol

**Cyd-destunau eraill**
Gall y math o fondio sy'n bresennol mewn sylwedd fod yn fondio cofalent, bondio metelig neu fondio ïonig

# Cyfansoddyn

sylwedd pur wedi'i wneud o ddwy neu ragor o elfennau gwahanol y mae bondiau cemegol yn cysylltu eu hatomau; mae'r atomau mewn cymhareb sefydlog


**Mewn geiriau eraill…**
dwy neu ragor o elfennau gwahanol wedi'u bondio'n gemegol




**Enghraifft**
Mae dŵr a sodiwm clorid yn gyfansoddion cyffredin

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/4jDLKJD






**Peidio â drysu â…**
Cymysgedd. Ni fydd yr holl atomau mewn cymysgedd wedi'u bondio at ei gilydd yn gemegol

**Dweud**
Cyf-an-sodd-yn


**Cyd-destunau eraill**
Mewn bioleg, byddwch yn astudio pwysigrwydd glwcos, carbon deuocsid a llawer o gyfansoddion eraill

# Dargludydd trydan

sylwedd sy'n galluogi i ronynnau wedi'u gwefru symud drwyddo'n hawdd

**Mewn geiriau eraill…**
deunydd sy'n dargludo trydan

**Enghraifft**
Mae metelau fel copr ac aur yn ddargludyddion trydan da



**Dweud**
Dar-glud-ydd tryd-an


**Cyd-destunau eraill**
Byddwch yn trafod dargludyddion trydan mewn ffiseg wrth ddysgu am gylchedau ac mewn cemeg wrth ddysgu am electrolysis


**Peidio â drysu â…**
dargludydd thermol. Mae'r esboniadau pam mae sylwedd yn ddargludydd trydanol da o'i gymharu â dargludydd egni thermol yn wahanol

# Diagram dot a chroes

mae’n cael ei ddefnyddio i ddangos sut mae electronau o blisg/lefelau egni allanol atomau yn cael eu rhannu neu eu trosglwyddo pan fydd atomau’n ffurfio moleciwlau neu ïonau

**Mewn geiriau eraill…**
diagram i gynrychioli bondio cofalent a bondio ïonig




**Peidio â drysu â…**
ffurfwedd electronau llawn atom unigol. Mewn diagramau dot a chroes, mae’n gyffredin cynrychioli’r electronau ym mhlisg allanol yr atomau neu’r ïonau dan sylw yn unig


# Electron

gronyn is-atomig â gwefr negatif sydd ag ychydig iawn o fàs ac sydd i'w ganfod ym mhlisg electronau/lefelau egni atomau

**Mewn geiriau eraill…**
gronynnau is-atomig negatif a geir mewn atomau

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/4lxieqC

**Dweud**
El-ec-tron




**Enghraifft**
Bydd atomau nitrogen yn cynnwys saith electron oherwydd mai rhif atomig nitrogen yw 7

**Peidio â drysu â…**
Ïon. Mae electronau mewn atomau ac ïonau


**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn astudio electronau yng nghyd-destun cylchedau trydanol

# Plisgyn electronau (neu lefel egni)

yr ardal o amgylch niwclews atom lle mae'r electronau i'w canfod; mae gan bob lefel uchafswm o electronau mae'n gallu eu dal

**Mewn geiriau eraill…**
lle mae'r electronau i'w canfod mewn atom

**Enghraifft**
Mae gan atom nitrogen ddau blisgyn electronau, felly mae wedi'i leoli yn ail gyfnod y tabl cyfnodol




**Peidio â drysu â…**
electronau dadleoledig. Nid ydynt ym mhlisgyn electronau unrhyw atom penodol. Oni bai eu bod wedi'u dadleoli, mae electronau'n llenwi gofod mewn plisgyn electronau/lefel egni

**Dweud**
Plisg-yn el-ec-tron-au

# Elfen

sylwedd pur sydd wedi'i wneud o un math o atom yn unig

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: [bit.ly/4jAYL6M](bit.ly/4jAYL6M)

| O | Na | P |
|---|---|---|
| Ocsigen | Sodiwm | Ffosfforws |
| 8 · 16 | 11 · 23 | 15 · 31 |

**Enghraifft**
Mae ocsigen, sodiwm a ffosfforws yn sylweddau pur wedi'u gwneud o un math o atom yn unig, felly maent i'w gweld yn y tabl cyfnodol

**Dweud**
El-fen


**Peidio â drysu â…**
atomau, sef y gronynnau unigol sy'n ffurfio elfen neu gyfansoddyn

**Cyd-destunau eraill**
Mewn bioleg, byddwch yn astudio sut mae ocsigen, carbon, nitrogen a nifer o elfennau eraill yn angenrheidiol ar gyfer bywyd

# Dellten enfawr


trefniant rheolaidd atomau neu ïonau sy'n ffurfio adeileddau estynedig

**Mewn geiriau eraill…**
adeiledd mawr sy'n ailadrodd ac sydd wedi'i wneud o atomau neu ïonau



**Enghraifft**
Mae diemwnt, silicon deuocsid a sodiwm clorid i gyd yn sylweddau sydd â'u hatomau wedi'u trefnu mewn adeiledd dellten enfawr

**Dweud**
Dell-ten en-fawr




**Peidio â drysu â…**
moleciwlau syml. Dim ond darn bach o'r adeileddau sydd i'w weld yn y lluniau hyn. Mae'r darnau hyn yn cael eu hailadrodd sawl gwaith i wneud dellt enfawr

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, mae gronynnau solid yn aml yn cael eu cynrychioli fel adeiledd dellten enfawr

# Anelastig

ddim yn hyblyg

**Mewn geiriau eraill…**
ni fydd yn ymestyn nac yn plygu



**Dweud**
An-el-as-tig

**Dadansoddi**
Mae 'an' yn golygu ddim yn


**Enghraifft**
Mae caniau diodydd metel a photeli gwydr yn ddeunyddiau anelastig cyffredin

**Cyd-destunau eraill**
Mae gwrthrych anelastig yn newid siâp yn barhaol pan roddir grym arno. Mewn ffiseg, byddwch yn ymchwilio i briodweddau gwrthrychau elastig ac anelastig

# Dellten reolaidd


trefniant o atomau neu ïonau sy'n ailadrodd ac yn ffurfio adeiledd 3D

**Mewn geiriau eraill…**
gronynnau wedi'u trefnu mewn adeiledd 3D sy'n ailadrodd



**Enghraifft**
Mae sodiwm clorid a diemwnt yn sylweddau y byddwch yn eu hastudio sydd ag adeiledd dellten reolaidd

**Dweud**
Dell-ten re-ol-aidd




**Peidio â drysu â…**
moleciwlau syml.

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn dysgu am drefniant gronynnau mewn solidau

# Gronyn is-atomig

gronyn sy'n llai nag atom

**Mewn geiriau eraill…**
gronynnau bach sy'n ffurfio'r holl elfennau




**Enghraifft**
Mae protonau, niwtronau ac electronau yn ronynnau is-atomig

**Dweud**
Gron-yn is-at-om-ig

**Peidio â drysu â…**
atomau. Gronynnau is-atomig sy'n ffurfio atomau. Maent i'w cael o fewn yr atom, nid y tu allan iddo

**Dadansoddi**
Mae 'is' yn golygu ar lefel o dan

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn dod ar draws yr un tri gronyn is-atomig yr ydym yn dysgu amdanynt mewn cemeg: protonau, niwtronau ac electronau

# Bond cofalent


math o fond sy'n cael ei ffurfio gan atomau sy'n rhannu o leiaf un pâr o electronau

**Mewn geiriau eraill…**
ffordd i atomau fondio at ei gilydd drwy rannu parau o electronau

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/44pZVxh

**Dweud**
Co-fa-lent

**Dadansoddi**
Mae 'co-' yn golygu gyda




**Enghraifft**
Mae atomau moleciwlau methan yn cael eu dal at ei gilydd gan fondiau cofalent

**Peidio â drysu â…**
grymoedd rhyngfoleciwlaidd. Mae bondiau cofalent o fewn moleciwlau bach ond nid rhyngddynt

**Cyd-destunau eraill**
Mewn bioleg, mae'r ensymau treulio amylas, proteas a lipas yn gweithio drwy dorri'r bondiau cofalent mewn moleciwlau bwyd penodol

# Deuatomig


pan fydd moleciwl yn cynnwys dau atom

**Mewn geiriau eraill…**
pâr o atomau wedi'u bondio

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/4ihXFeX


**Dweud**
Deu-at-om-ig

**Dadansoddi**
Mae 'deu' yn golygu dau




moleciwl hydrogen

$H_2$




moleciwl nitrogen

$N_2$

**Cyd-destunau eraill**
Mewn bioleg byddwch yn defnyddio'r fformiwla ar gyfer ocsigen deuatomig, $O_2$, mewn hafaliadau symbolau

**Enghraifft**
Mae hydrogen ($H_2$) a nitrogen ($N_2$) yn foleciwlau deuatomig


**Peidio â drysu â…**
cyfansoddyn; mae gan foleciwl deuatomig ddau atom, ond nid oes rhaid iddynt fod yn atomau gwahanol. Felly, mae moleciwl deuatomig yn gallu bod yn elfen neu'n gyfansoddyn

# Grymoedd rhyngfoleciwlaidd

y grymoedd atynnol a gwrthyrrol cymharol wan rhwng moleciwlau

**Dweud**
Grym-oedd rhyng-fol-ec-iwl-aidd

**Dadansoddi**
Mae 'rhyng' yn golygu rhwng neu ymhlith




**Enghraifft**
Mae'r moleciwlau dŵr mewn iâ yn cael eu dal at ei gilydd gan rymoedd atynnol rhwng y moleciwlau

**Peidio â drysu â…**
bondiau cemegol. Nid oes unrhyw fondiau cofalent yn cael eu torri pan fydd sylweddau sydd wedi'u gwneud o foleciwlau cofalent bach yn ymdoddi neu'n berwi – y grymoedd rhyngfoleciwlaidd sy'n cael eu trechu

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, efallai y byddwch yn trafod grymoedd rhyngfoleciwlaidd wrth ddysgu am y model gronynnau


# Grymoedd mewnfoleciwlaidd


y grymoedd atynnol a gwrthyrrol mewn moleciwl

**Mewn geiriau eraill…**
y grymoedd sy'n cadw atomau gyda'i gilydd mewn moleciwl

**Dweud**
Grym-oedd mewn-fol-ec-iwl-aidd

**Dadansoddi**
Mae 'mewn-' yn golygu y tu mewn i





**Enghraifft**
Mae bondiau cofalent, bondiau ïonig a bondiau metelig yn enghreifftiau o rymoedd atyniad mewnfoleciwlaidd

**Peidio â drysu â…**
grymoedd rhyngfoleciwlaidd. Gall moleciwlau fod â grymoedd mewnfoleciwlaidd a rhyngfoleciwlaidd, nid dim ond un neu'r llall

# Macrofoleciwl

moleciwl mawr iawn

**Dweud**
Mac-ro-fol-e-ciwl



**Enghraifft**
Mae diemwnt yn facrofoleciwl – un moleciwl enfawr sydd wedi'i wneud o atomau carbon â bondiau cofalent rhyngddynt

**Dadansoddi**
Mae 'macro-' yn golygu mawr


**Peidio â drysu â…**
dellten.

**Geiriau tebyg**
Gellir disgrifio'r macrofoleciwlau silicon deuocsid a diemwnt fel adeileddau cofalent enfawr


# Moleciwl

dau atom neu ragor wedi'u cysylltu gan fondiau cemegol


**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/4lBjGbG




moleciwl carbon deuocsid



moleciwl hydrogen



moleciwl nitrogen



moleciwl dŵr

**Dweud**
Mol-e-ciwl

**Geiriau tebyg**
Byddai hefyd modd disgrifio moleciwlau nwyon a hylifau fel gronynnau nwy a hylif

**Enghraifft**
Mae carbon deuocsid ($CO_2$), dŵr ($H_2O$) a'r holl gyfansoddion eraill yn foleciwlau

**Peidio â drysu â…**
elfennau a chyfansoddion. Mae moleciwl yn gallu bod yn elfen neu'n gyfansoddyn

**Cyd-destunau eraill**
Mewn bioleg, byddwch yn astudio nifer o wahanol foleciwlau a geir mewn organebau byw, fel glwcos a charbon deuocsid


# Anion

ïon negatif

**Mewn geiriau eraill…**
gronyn â gwefr negatif

**Dweud**
An-i-on

**Geiriau tebyg**
Ïon negatif




**Enghraifft**
Gall anfetelau fel clorin a bromin ffurfio anionau clorid a bromid

**Peidio â drysu â…**
electronau. Mae gan anionau ac electronau wefr negatif. Ond mae gan anionau wefr negatif oherwydd bod atom wedi ennill mwy o electronau yn ei blisgyn allanol

# Brau

rhywbeth sy'n cracio neu'n torri pan fydd grym yn cael ei roi arno

**Mewn geiriau eraill…**
gwrthrychau a fydd yn torri, yn hytrach na phlygu neu ymestyn

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/3RfV1eN





**Enghraifft**
Bydd craig yn cracio pan fydd grym digon cryf yn cael ei roi arni oherwydd bod y graig yn frau

**Peidio â drysu â…**
bregus (hawdd ei dorri). Nid yw pob gwrthrych brau yn fregus

**Dweud**
Brau

**Geiriau tebyg**
Anelastig


# Ïon

gronyn â gwefr sy’n cael ei ffurfio pan fydd un neu ragor o electronau’n cael eu colli neu eu hennill o atom neu foleciwl

**Mewn geiriau eraill…**
gronyn â gwefr bositif neu negatif

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/3Yv76R2

**Dweud**
Ï-on




**Geiriau tebyg**
Mae catïonau yn ïonau â gwefr bositif, ac mae anionau yn ïonau â gwefr negatif

**Enghraifft**
Pan fydd atom sodiwm yn colli electron, mae’n troi’n ïon â gwefr bositif


**Peidio â drysu â…**
protonau (positif) neu electronau (negatif)

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, efallai y byddwch yn trafod ïonau wrth ddysgu am drydan

# Bond ïonig

grym atyniad electrostatig rhwng ïonau â gwefr ddirgroes mewn dellten reolaidd sy'n ffurfio rhwng metel ac anfetel

**Mewn geiriau eraill…**
y bond rhwng metel ac anfetel




**Dweud**
Bond ï-on-ig

**Peidio â drysu â…**
moleciwl deuatomig. Ni fydd bondiau ïonig bob amser yn ffurfio mewn cymhareb 1:1 o ïonau metel i ïonau anfetel. Er enghraifft, mae gan $MgCl_2$ ddau ïon clorid $Cl^-$ ar gyfer pob ïon magnesiwm $Mg^{2+}$

**Enghraifft**
Mae sodiwm clorid $NaCl$ (halen bwrdd) yn gyfansoddyn sy'n cael ei ddal at ei gilydd gan fondiau ïonig. Wrth falu gronyn mawr o halen yn fân, rydych chi'n torri'r bondiau ïonig rhwng yr ïonau sodiwm a'r ïonau clorid


# Ïon polyatomig

gronyn wedi'i wefru sydd wedi'i wneud o ddau atom neu ragor wedi'u cysylltu â'i gilydd

**Mewn geiriau eraill…**
dau atom neu ragor wedi'u bondio gyda'i gilydd i ffurfio moleciwl sydd â gwefr bositif neu negatif gyffredinol

**Dweud**
Pol-i-at-om-ig

**Dadansoddi**
Mae 'poly-' yn golygu llawer




**Cyd-destunau eraill**
Ym maes bioleg, mae ïonau nitrad ac ïonau ffosffad yn ïonau polyatomig sy'n bwysig ar gyfer maeth planhigion


**Enghraifft**
$OH^-$ Mae (hydrocsid) a $NH_4^+$ (amoniwm) yn ïonau polyatomig y byddwch yn dod ar eu traws yn aml mewn cemeg

**Peidio â drysu â…**
cyfansoddyn ïonig. Mae cyfansoddion ïonig yn niwtral yn gyffredinol felly ni ddangosir gwefr yn y fformiwla. Mae gan ïon polyatomig yn y cyfansoddyn wefr, ac mae angen dangos y wefr honno bob amser

# Aloi

cymysgedd o ddwy neu ragor o elfennau y mae o leiaf un ohonynt yn fetel, pan fo gan y cymysgedd briodweddau metelig

**Mewn geiriau eraill…**
elfen fetel wedi'i chymysgu ag elfen arall i wella priodweddau'r metel, fel ei wneud yn fwy caled



**Enghraifft**
Mae efydd yn aloi o'r ddau fetel copr a thun

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
[bit.ly/3RNrOrl](bit.ly/3RNrOrl)

**Peidio â drysu â…**
cyfansoddion ïonig, er y gall aloion gynnwys elfen anfetelig wedi'i chymysgu â'r metel


**Dweud**
A-loi

# Catïon

ïon positif

**Dweud**

Cat-ï-on




**Enghraifft**
Gall elfennau metelig ffurfio catïonau fel $Na^+$ a $Mg^{2+}$

**Peidio â drysu â…**
protonau. Mae'r ddau yn ronynnau positif, ond mae protonau i'w canfod mewn atomau ac ïonau


# Electron dadleoledig

electron mewn moleciwl neu adeiledd nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw atom, ïon, neu fond cofalent penodol ac sy'n rhydd i symud

**Mewn geiriau eraill…**
electronau sy'n rhydd i symud drwy adeiledd oherwydd nad ydynt yn rhwym wrth un atom neu ïon penodol

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: [bit.ly/4jCGh5R](https://bit.ly/4jCGh5R)

**Dweud**
El-ec-tron-au dad-le-ol-ed-ig



**Geiriau tebyg**
Electron rhydd

**Enghraifft**
Mae metelau'n dargludo trydan yn dda oherwydd bod ganddynt electronau dadleoledig

**Peidio â drysu â…**
electronau mewn metel. Mae gan graffit, sy'n alotrop carbon, hefyd electronau dadleoledig


**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, mae electronau dadleoledig yn llifo drwy gylched i gynhyrchu cerrynt

# Hydwyth

yn gallu cael ei dynnu allan i greu gwifrau

**Mewn geiriau eraill…**
deunydd sy'n gallu cael ei ymestyn neu ei dynnu allan i greu gwifrau tenau heb dorri






**Enghraifft**
Mae copr yn cael ei ddefnyddio i wneud gwifrau mewn cylchedau trydanol oherwydd ei fod yn hydwyth

**Dweud**
Hyd-wyth

# Grym atyniad electrostatig

grym atyniad rhwng gronynnau â gwefrau dirgroes

**Mewn geiriau eraill…**
bydd gronynnau positif a negatif yn atynnu ei gilydd



**Dweud**
Grym at-yn-iad el-ec-tro-stat-ig

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg byddwch yn astudio electrostateg yn rhan o bwnc trydan

**Enghraifft**
Mae grym atyniad electrostatig rhwng protonau â gwefr bositif ac electronau â gwefr negatif


**Peidio â drysu â…**
bondio cemegol. Mae pob math o fondio yn cynnwys grym atyniad electrostatig, ond y grym hwn hefyd sy'n achosi i brotonau ac electronau atynnu o fewn atomau unigol

# Hydrin

yn gallu cael ei forthwylio neu ei blygu i siâp

**Dweud**

Hyd-rin




**Enghraifft**

Gellir defnyddio metelau ar gyfer corff cerbydau fel ceir ac awyrennau oherwydd bod modd siapio metelau'n hawdd – maent yn hydrin

# Metel

elfen sy'n sgleiniog pan fydd yn cael ei thorri, yn hydrin ac yn dargludo trydan yn dda; mae metelau i'w gweld ar ochr chwith ac yng nghanol y tabl cyfnodol, ac maent yn tueddu i golli electronau i ffurfio ïonau positif

**Mewn geiriau eraill…**
elfennau sy'n gallu cael eu plygu i siâp ac sy'n dargludo trydan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn solidau sgleiniog ar dymheredd ystafell



**Enghraifft**
Mae haearn, alwminiwm a chopr yn fetelau sy'n cael eu defnyddio'n aml i weithgynhyrchu nwyddau defnyddiol

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: [bit.ly/42fFYYP](bit.ly/42fFYYP)

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg byddwch yn astudio'r metelau magnetig haearn, nicel a chobalt


**Peidio â drysu â…**
bondio metelig. Bydd gan fetelau pur fondiau metelig, ond gall metelau ffurfio bondiau ïonig gydag anfetelau

**Dweud**
Met-el

# Bond metelig

grym atyniad electrostatig rhwng electronau dadleoledig a'r ïonau positif mewn dellten reolaidd

**Mewn geiriau eraill…**
math o fondio rhwng atomau metel pan fydd electronau'r plisgyn allanol yn cael eu dadleoli ond yn dal i gael eu hatynnu at yr ïonau metel positif sydd wedi ffurfio



**Enghraifft**
Mae gan 'ffoil' (llen denau iawn o alwminiwm) fondiau metelig, felly pan fyddwch chi'n rhwygo'r ffoil rydych chi'n torri'r bondiau metelig

**Dweud**
Bond met-el-ig


**Peidio â drysu â…**
bondiau ïonig. Dim ond yr ïonau metel positif sydd mewn safle sefydlog mewn bond metelig; mae'r electronau dadleoledig yn gallu symud yn rhydd drwy'r adeiledd

# Dargludedd thermol

mesur o ba mor hawdd mae sylwedd yn galluogi gwres i symud drwyddo

**Mewn geiriau eraill…**
mae sylweddau sydd â dargludedd thermol uchel yn dda am drosglwyddo gwres

**Dweud**
Dar-glud-edd ther-mol



**Enghraifft**
Mae'r rhan fwyaf o fetelau'n ddargludyddion thermol da, felly maent yn cael eu defnyddio mewn gwrthrychau fel sosbenni a rheiddiaduron


**Peidio â drysu â…**
dargludedd trydanol. Bydd yr esboniadau pam mae sylwedd yn ddargludydd trydan neu'n ddargludydd egni thermol yn wahanol


**Geiriau tebyg**
Mae dargludyddion thermol hefyd yn gallu cael eu disgrifio fel dargludyddion gwres


# Alotropau


gwahanol ffurfiau ar yr un elfen yn yr un cyflwr ffisegol; er enghraifft, mae diemwnt, graffit, graffen a ffwlerenau yn alotropau carbon

**Mewn geiriau eraill…**
ffurfiau gwahanol ar yr un elfen lle mae'r atomau wedi'u trefnu mewn ffyrdd gwahanol, gan roi priodweddau gwahanol i bob alotrop









**Enghraifft**
Mae diemwnt a graffit yn ddau alotrop carbon


**Peidio â drysu â…**
isotop. Mae alotropau'n cael eu disgrifio yn nhermau eu hadeiledd a'u bondiau, nid nifer y gronynnau is-atomig yn y niwclews

**Dweud**
Al-o-trop-au

# Tetrahedrol

moleciwlau ac adeileddau sydd ag un atom yn y canol a phedwar atom yng nghorneli pyramid trionglog

**Dweud**
Tet-ra-hed-rol



**Enghraifft**
Mae atomau carbon wedi'u trefnu mewn adeiledd tetrahedrol mewn moleciwl diemwnt

**Dadansoddi**
Mae 'tetra-' yn golygu pedwar

**Peidio â drysu â…**
diemwnt. Mae ganddo adeiledd tetrahedrol, ond mae hynny'n wir am lawer o foleciwlau eraill hefyd. Mae silicon yn facrofoleciwl arall sydd ag adeiledd tetrahedrol, ac mae gan rai moleciwlau bach fel methan ($CH_4$) hefyd siâp tetrahedrol

# Diolchiadau

Mae'r lluniau ar sleidiau 7, 13, 23 a 30 o © Shutterstock

Geirfâu Iaith Arwyddion Prydain o dermau'r cwricwlwm gan yr SSC (https://www.ssc.education.ed.ac.uk/BSL/)